# Hawlio iawndal am anaf personol – cytundebau dim ennill, dim ffi

Os ydych wedi cael anaf a pherson arall sydd ar fai, mae'n bosib yr ydych yn meddwl am hawlio iawndal.

Mae'n bosib yr ydych am hawlio iawndal oherwydd:

- damwain yn y gwaith
- damwain traffig
- camgymeriad yn ystod triniaeth feddygol
- cawsoch ddamwain yn y stryd, mewn siop, neu le cyhoeddus arall.

## Terfynau amser ar gyfer cyflwyno cais anaf personol

Yr hawl mwyaf cyffredin mewn achos anaf personol yw esgeulustod a'r terfyn amser ar gyfer y math hwn o hawl yw tair blynedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid dechrau achos llys o fewn tair blynedd o'r dyddiad yr oeddech chi'n ymwybodol o'ch anaf.

## Cytundebau dim ennill, dim ffi

Yn y mwyafrif o achosion, ni allwch gael cymorth ariannol (**cymorth cyfreithiol**) i hawlio iawndal am anaf personol, a bydd angen i chi dalu ffioedd cyfreithiol drud o flaen llaw. Mae'n annhebygol y byddwch yn cael yr arian hwn yn ôl os ydych yn colli'r achos.

Os na allwch gael cymorth cyfreithiol neu nid oes gennych bolisi yswiriant ar gyfer eich hawliad, un opsiwn fyddai cael cytundeb **'ffi amodol'** neu **'dim ennill, dim ffi'** gyda chyfreithiwr.

Os oes gennych gytundeb 'dim ennill, dim ffi', ni fydd yn rhaid i chi dalu ffioedd eich cyfreithiwr os ydych yn colli (er mae'n bosib y bydd angen i chi dalu rhai costau). Os ydych yn ennill, bydd angen i chi dalu ffioedd eich cyfreithiwr a byddant lawer yn uwch na phetaech yn colli eich achos. Fodd bynnag, dylech gael y rhan fwyaf ohonynt yn ôl o'r ochr arall a rhan fwyaf o'r iawndal a ddyfarnwyd i chi.

Dylech feddwl yn ofalus iawn cyn cael cytundeb 'dim ennill, dim ffi', mae'n bosib y bydd angen i chi dalu rhywfaint, a gallai hyn fod yn uwch na faint yr ydych yn ei ddisgwyl.

## Talu costau'r ochr arall

Os oes gennych gytundeb 'dim ennill, dim ffi', bydd angen i chi dalu costau'r ochr arall os ydych yn colli'ch achos. Gallai'r costau hyn fod yn ddrud iawn felly mae'n syniad da cael polisi yswiriant. Gelwir hyn yn yswiriant **'ar ôl y digwyddiad'**. Bydd llawer o gyfreithwyr yn gofyn i chi gael yr yswiriant hwn cyn iddynt ddechrau eich achos.


Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Nid oes pawb yn gallu cael yswiriant ar ôl y digwyddiad. Bydd cwmnïau yswiriant yn llai bodlon i'ch yswirio os yw'n annhebygol y byddwch yn ennill yr achos. Os na allwch gael yswiriant ar ôl y digwyddiad, dylech feddwl yn ofalus iawn am b'un ai yr ydych am barhau gyda'ch achos neu beidio.

Gall cael yswiriant ar ôl y digwyddiad fod yn ddrud iawn. Ni fyddwch yn derbyn ei gost yn ôl os ydych yn colli. Os ydych yn ennill, mae'n bosib y cewch y rhan fwyaf ohono yn ôl o'r gwrthwynebydd, ond efallai y bydd angen i chi dalu ychydig ohono. Er enghraifft, gallai'r llys benderfynu bod cost y polisi yswiriant yn rhy uchel ac nid oes yn rhaid i'r gwrthwynebydd dalu'r swm cyfan. Os yw hyn yn digwydd, bydd angen i chi dalu'r gwahaniaeth gyda'ch iawndal.

Os na allwch fforddio talu am yr yswiriant o flaen llaw, dylech drafod hyn gyda'ch cyfreithiwr. Efallai y gall eich cyfreithiwr dalu amdano. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl, gallwch ohirio talu tan fod eich achos wedi'i bennu. Fel arall, bydd angen i chi gael benthyciad. Os ydych yn gohirio talu neu'n cael benthyciad, mae'n bosib y bydd angen i chi dalu llog na fedrwch ei gael yn ôl, hyd yn oed os ydych yn ennill eich achos.

## Talu costau eich cyfreithiwr

Gall costau eich cyfreithiwr gynnwys:

**Ffioedd sylfaenol**
Ni fydd yn rhaid i chi dalu'r ffioedd hyn os ydych yn colli eich achos. Os ydych yn ennill, dylai'r ochr arall eu talu. Fodd bynnag, os yw'r ochr arall yn meddwl eu bod yn rhy uchel, gall y llys benderfynu nad oes raid iddynt dalu'r swm cyfan. Os yw hyn yn digwydd, mae'n bosib bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth gyda'ch iawndal.

Weithiau, gallai cyfreithiwr gytuno i chi dalu beth bynnag yw'r swm a gewch o'r ochr arall. Os dyma'r achos, mae'n rhaid ei fod yn rhan o'r cytundeb ffi amodol.

**Ffi llwyddiant**
Y **ffi llwyddiant** yw'r swm ychwanegol yr ydych yn ei dalu i'ch cyfreithiwr pan fyddwch yn ennill achos. Mae ffioedd llwyddiant mewn achosion 'dim ennill, dim ffi' yn aml yn uchel, a gallant gostio dwywaith cymaint â ffioedd mathau eraill o achosion cyfreithiol. Mae'n bosib na fyddwch yn cael yr arian hwn i gyd yn ôl o'r ochr arall. Os nad ydych yn ei gael yn ôl, bydd angen i chi dalu'r gweddill gyda'ch iawndal.

Cyn i chi drefnu cytundeb 'dim ennill, dim ffi', gwiriwch gyda'ch cyfreithiwr faint o'ch iawndal y bydd angen i chi dalu tuag at y ffi llwyddiant, a faint caiff ei dalu gan yr ochr arall. Os yw'r swm yn ymddangos yn rhy uchel o gymharu â swm yr iawndal yr ydych yn debygol o gael, dylech feddwl yn ofalus ynglŷn â ph'un ai i barhau gyda'ch achos. Fel arall, mae'n bosib y gallwch ddewis cyfreithiwr arall sy'n codi llai o dâl.

**Ffioedd bargyfreithwyr**
Os oes rhaid i'ch achos fynd i'r llys, mae'n bosib y bydd angen **bargyfreithiwr** arnoch i'ch cynrychioli chi, yn ogystal â chyfreithiwr.
Nid yw ffioedd bargyfreithiwr fel arfer yn cael eu cynnwys mewn cytundebau 'dim ennill, dim ffi', felly os oes angen bargyfreithiwr arnoch, mae'n bosib y bydd angen i


Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

chi ei dalu p'un ai a ydych yn ennill yr achos neu beidio. Gallai'r ffioedd hyn fod yn ddrud iawn. Fodd bynnag, mae'n bosib gall eich cyfreithiwr ddwyn perswâd ar eich bargyfreithiwr i godi tâl ar sail 'dim ennill, dim ffi'.

**Costau eraill**
Mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi dalu costau eraill megis ffioedd arbenigwyr, ffioedd adroddiadau damweiniau, chwiliadau swyddogol, ffioedd y llys, a chostau teithio. Efallai nad yw'r costau hyn wedi'u cynnwys yn y cytundeb 'dim ennill, dim ffi' a gallant fod yn uchel iawn.

**Costau cudd**
Cyn i chi drefnu cytundeb 'dim ennill, dim ffi', gwiriwch y termau yn ofalus iawn am gostau cudd. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, a'r cytundeb sydd gennych gyda'ch cyfreithiwr, mae'n bosib y bydd angen i chi dalu os:

- yw eich cyfreithiwr yn eich cynghori i ollwng yr achos
- ydych yn gwrthod setlo y tu allan i'r llys yn unol â chyfarwyddyd eich cyfreithiwr
- ydych yn setlo y tu allan i'r llys sy'n mynd yn erbyn cyngor eich cyfreithiwr
- ydych yn gwrthod cydymffurfio â'ch cyfreithiwr mewn ffordd arall
- yw'r ochr arall yn cael ei orchymyn i dalu costau na all ei fforddio.

Mae'n bosib y bydd hefyd angen i chi dalu os yw eich cyfreithiwr yn eich cynghori i ollwng eich achos, ond rydych yn parhau gyda chyfreithiwr arall. Os ydych yna yn ennill eich achos, efallai y bydd angen i chi dalu ffi llwyddiant i'ch cyfreithiwr gwreiddiol. Bydd hyn ar ben unrhyw gostau y bydd angen i chi dalu eich cyfreithiwr newydd.

## Cwmnïau rheoli hawliadau

Gall cwmnïau rheoli hawliadau (a elwir weithiau yn rheolwyr hawliadau, pobl sy'n trin hawliadau neu aseswyr hawliadau) gynnig ymdrin â'ch hawliad am iawndal ar sail 'dim ennill, dim ffi'. Gallai rheolwyr hawliadau ymdrin â'ch achos eu hun, neu gallant ddefnyddio cyfreithiwr a gweithredu rhyngoch.

Mae'n rhaid i reolwyr hawliadau gael eu hawdurdodi gan y llywodraeth i gynnal busnes. Mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â rheolau llym sy'n ymdrin â'r ffordd y maen nhw'n hysbysebu, yn cael busnes, yn delio â chleientiaid a'u cynrychioli. Os nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan eich rheolwr hawliadau, gallwch wneud cwyn. Mae'n rhaid bod gan y cwmni weithdrefn gwyno fewnol ac mae'n rhaid bod y rheolwr hawliadau wedi dweud wrthych amdani.

Cyn i chi ddefnyddio rheolwr hawliadau, dylech wirio i weld p'un ai eu bod wedi'u hawdurdodi neu beidio. Gallwch riportio rheolwr hawliadau nad yw wedi ei awdurdodi i'r **Uned Monitro a Chydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Hawliadau** drwy ffonio 0845 450 6858 neu 01283 233309, neu e-bostiwch info@claimsregulation.gov.uk. I wirio p'un ai bod rheolwr hawliadau wedi'i awdurdodi, ewch at: www.claimsregulation.gov.uk/search.aspx.



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

**Dylech fod yn wyliadwrus iawn ynglŷn â defnyddio cwmni rheoli hawliad i ymdrin â'ch achos.** Nid yw rheolwyr hawliadau wedi cael eu hyfforddi'n gyfreithiol. Os nad ydynt yn defnyddio cyfreithiwr i ymdrin â'ch hawliad, ni fyddant yn gallu hawlio iawndal trwy'r llys. Gallai hyn olygu y byddant yn ceisio dwyn perswâd arnoch i setlo tu allan i'r llys a gallai arwain atoch yn derbyn swm llai o iawndal.

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi dalu llawer o arian am wasanaeth y cwmni. Gallai hyn gynnwys costau uchel iawn sydd ddim yn rhan o'r cytundeb 'dim ennill, dim ffi'. Mae gan gwmnïau rheoli hawliadau fel arfer **ffi wrth gefn**. Mae hyn yn golygu y bydd gofyn i chi dalu canran o'ch iawndal i'r cwmni rheoli hawliadau os ydych yn ennill eich achos, a dim byd os ydych yn colli. Gallai'r swm fod yn hynod o uchel. Mewn rhai achosion, byddwch yn gorfod gwario eich iawndal i gyd neu'r rhan fwyaf ohono. Os ydych mewn sefyllfa debyg, mae'n bosib y gallwch fynd i'r llys i ddadlau bod y cytundeb yn annheg ac efallai na fydd yn rhaid i chi dalu cymaint i'r cwmni. Bydd angen cyngor arnoch i wneud hyn.

Nid oes yn rhaid i gwmnïau rheoli hawliadau gael yswiriant proffesiynol. O ganlyniad, os nad yw cwmni rheoli hawliadau yn delio â'ch hawliad yn gywir neu'n esgeulus, mae'n bosib na fyddwch yn gallu cael unrhyw iawndal am unrhyw golledion.

Cyn i chi drefnu cytundeb gyda chwmni rheoli hawliadau, dylech feddwl am ymgynghori â chyfreithiwr arbenigol.

## Cymorth ychwanegol

**Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth**
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

**Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu**

- Anafiadau personol
- Defnyddio cyfreithiwr
- Cymorth gyda chostau cyfreithiol
- Hawliadau bychain

**Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.**

**Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 17 Hydref 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.**



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr